

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 840 (Cy. 185)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 4) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Brunei a Malaysia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 4 yn hepgor Andorra, y Bahamas, a Gwlad Belg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r rheoliadau hyn yn ymdrin â meysydd a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r gofynion i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 840 (Cy. 185)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 4) 2020**

*Gwnaed am 8.38 p.m. ar 6 Awst 2020*

*Yn dod i rym am 11.59 p.m. ar 6 Awst 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru 7 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 11.59 p.m. ar 6 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(2).

- 
- (1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.
- (2) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177) ac O.S. 2020/817 (Cy. 179).

## **Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnoder—

“Brunei”

“Malaysia”.

## **Darpariaeth trosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 2**

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 7 Awst 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi cyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 2, neu ar ôl bod mewn gwlad a restrir yn y rheoliad hwnnw, a
- (b) fo diwrnod olaf ynysiad P ar 7 Awst 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 2 at Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru ar 7 Awst 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mae'r cwestiwn o ran pa un a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 2, i'w bennu drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i “gofyniad i ynysu” yr ystyr a roddir gan rheoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

**Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

“Andorra”

“Y Bahamas”

“Gwlad Belg”.

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

5.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru ar 7 Awst 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 ddiwethaf—
  - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
  - (ii) cyn 7 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 8.38 p.m. ar 6 Awst 2020